# Llythyrau Milwyr o'r *Drych*

*a deunydd arall am y Rhyfel Cartref*

Ionawr + Chwefror 1863

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Llythyrau Milwyr o'r *Drych*
# *a deunydd arall am y Rhyfel Cartref*

Thomas R. Griffiths, 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863
William S. Jones, 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863
John W. Rowlands, 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Chwefror 1863
John H. Williams, 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Chwefror 1863
Aberiddon, 'Pennillion ar y Rhyfel', *Y Drych,* 28 Chwefror 1863

## Llythyrau oddiwrth Filwyr Cymreig.

Camp ger Fredericksburgh, Va.,
Ionawr 12, 1863.

HOFF GYFAILL,—Wedi oedi, a disgwyl i ryw un anfon ychydig o hanes Fredericksburg, y wlad oddiamgylch, a'r ymladdfa waedlyd a fu yma yn ddiweddar, ac heb weled neb yn gwneuthur hyny, defnyddiaf yr adeg bresenol er rhoddi desgrifiad o honynt mor agos ag y gallaf i ti.

Mae Fredericksburg yn sefyll ar lan yr afon Rappahannock. Afon fechan yw hon, tua chan' llath o led, ac o bump i saith troedfedd o ddyfnder—weithiau fwy, ac weithiau lai. Ar ei glan, ac o bob ochr iddi, y mae gwlad brydferth iawn, yn rhagori bron ar ddim a welais i erioed; gwlad wastad i'w gweled am filltiroedd i lawr, ac yn ymestyn yn ol oddiwrth yr afon oddeutu un filltir.—Tu ol i'r ddinas y mae gwastadedd hardd, yn agos i filltir, ac yna yn codi yn lled serth am oddeutu 60 troedfedd; ac wedi hyny y mae gwastadtir am gryn dipyn o ffordd i'r tu deau, neu ar y llaw ddeau wrth fyned i mewn i'r ddinas; ond ar y llaw chwith y mae yn parhau i godi, ac yn ffurfio bryniau heirdd a phrydferth iawn, a'r coedwigoedd yn dwyn yr olwg fwyaf serchus a welodd dyn erioed.

Ar ochrau y bryniau uchod y mae y gwrthryfelwyr wedi gwneyd eu Gwersylloedd; gellir eu gweled yn mysg y coedydd yn amlwg â'r llygad noeth. Trigolion y ddinas hon yw y rhai mwyaf gwrthryfelgar a welais i eto, lle cafodd ein milwyr gwrol eu gwawdio a'u dirmygu, ac y taflwyd dwfr poeth i'w gwynebau gan y merched a'r gwragedd: gwnant yr oll a allant er digaloni ein milwyr. Ond er gwaethaf merched twyllodrus eu mam Efa, nis gallant feddalhau dim ar ysbryd gwrol a phenderfynol milwyr yr Undeb, a phlant eu hen dad, Abraham Lincoln, y rhai sydd wedi llyncu ei ysbryd rhydd a dyngarol, a phenderfyniad i golli y diferyn olaf o waed dros ryddid dynoliaeth, a darostyngiad caethiwed, trais a gormes—un wlad yw eu *motto*, ac un Llywodraethwr dros yr holl Dalaethau Americanaidd; plaid darostwng y gwrthryfelwyr, penderfynol hefyd i dalu'r pwyth i'r rhai a'u gwawdiant cyn darfod â hwynt, a gobeithio y bydd hyny ar fyr.

Yn y fan yma yr oedd taid y gwron George Washington yn byw. Gellir gweled ei dy heddyw ar y llaw dde i'r ddinas, yn cael ei amgylchu gan y *rebels* ofnadwy. Ar lan yr afon hon y dechreuodd Washington gerdded, y gwrteithiwyd ei feddwl, y planwyd ei egwyddorion rhyddid o'i fewn, ac y penderfynodd ymaflyd yn y gorchwyl o ymladd dros ryddid ei wlad, ac yn nerth ei Geidwad gorchfygodd y gelyn; ond nid heb ddioddef llawer o galedwch, fel ninau. Rhyddid oedd ei gais, yr hyn hefyd a enillodd i'r holl wlad. Heddyw y gorwedd ei weddillion ar lan y Potomac. Ei fan genedigol a amgylchir gan y gwrthryfelwyr mwyaf bradychus o dan haul y nefoedd, a mwyaf dieflig a welodd dyn erioed.—Gwelais tua phum' cant o honynt, a gymerwyd yn garcharorion, yn aros am gael eu newid, a mawr oedd eu stwr—rhai yn tyngu a rhegu, eraill yn ymladd a'u gilydd, ac eraill yn cyflawni pob drwg ag y gallent feddwl am dano. Eu gwisgoedd ydynt wahanol iawn. Wedi iddynt aros yma dair neu bedair awr yn cadw stwr, daeth y Cad. Killpatrick, y Prov. Marshal yno, ac a'u trosglwyddodd yn groes i'r afon i'w ochr ei hun, a bu llonyddwch ar ei ol.

Dafydd, mae y fan hon yn fan hynod iawn—yma y taniodd y gelyn ar ein pont gludwyr am 1 o'r gloch y boreu, pan oeddynt yn gosod y bont ar yr afon, ac y lladdwyd llawer o honynt; ond er y cyfan cyflawnwyd y gorchwyl, drwy i ni daflu ein shot a'n shells i'w plith tu ag at y ddinas, nes crynu y ddaiar gan eu cynhyrfiadau, ac y rhwygwyd y nefoedd a'r swn, yr hyn a barhaodd am 11 awr, ac yna cafwyd llonyddwch i orphen y gwaith.

Thomas R. Griffiths, 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863, t.27

Wedi gorphen y bont, dechreuodd y fyddin groesi i'r lan arall; ac wedi cael digon yno, rhoddwyd gorchymyn i *farchio* yn mlaen. Yn awr, yr oedd bywyd a chyffro mawr trwy yr holl wersyll, pob catrawd a phob cwmni yn ymbarotoi i symud yn mlaen ar y gelyn; ac wedi cael pob peth yn barod, yn mlaen a ni i'r daith fel un gwr; ond O! y fath daith i ganoedd a miloedd, yr hon oedd eu taith olaf ar ddaiar hon. Wrth ddringo i fyny y bryn, lle yr oedd ein gelynion yn gwylied ein holl symudiadau, ac wedi ymbarotoi i'n derbyn, a agorasant arnom o'u gwrthgloddiau gan ysgubo ein dynion wrth y canoedd i fyd arall O! y llefain, yr wylo, yr ysgrechiadau a'r gwaeddi! y Sais, yr Allman, y Gwyddel, a'r Cymro, a floeddiasant yn nghyd! O! y gruddfan a'r ochain mawr oedd gan y rhai a orweddent yn eu gwaed—ei gleddyf a'i ddryll a orweddent yno yn fud, a'i lafn wedi ei liwio gan waed, ei feddwl yn rhedeg i'w gartref a'i wlad at ei berthynasau, ac i fwthyn anwylaf ei dad a'i fam.

"Ar faes y gelanedd rhwng ffosydd o waed
Gorweddai y milwr clwyfedig dan draed,
A'i gleddyf hir awchus ar lawr oedd yn fud,
A'i lafn wedi 'i wrido gan waed ar ei hyd;
Pryd 'hedai ei feddwl i Walia, 'i hen wlad,
I fwthyn anwylaf ei hoff fam a'i dad.

Adgofiant o'r bwthyn heddychol a'r ardd,
A'r blodau addurnant y llwybrau mor hardd,
A'r afon a'i heibio i'w ddrws ar ei thaith,
Y ddôl a'r llwyn deiliog, lle bu lawer gwaith;
Mae'r meddwl na chaiff byth byth eu gwel'd hwy,
Yn rhwygo archollion ei fynwes yn fwy.

Pryd hyn is ei gaerau yr haul guddia'i ben,
A duon gymylau anhuddant y nen;
Y rhuawg fagnelau a'n fudion yn awr,
A nos drom a daflai ei chlog dros y llawr;
A'r fflamau ddiffoddant yn nghanol y mwg,
A'r cleddyf ymgiliai o'r maes yn ei wg.

Ar lawr yn ei ymyl ymdreiglai mewn poen
Y cadfarch wrth farw yn llydan ei ffroen;

Thomas R. Griffiths, 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863, t.27

A'i farchog o'r neilldu yn farwol a gaid,
A'i waed wedi cochi ei farf yn y llaid ;
Trugaredd ni welid drwy'r maes yn rho'l tro,
O'r tân yn ei dychryn diangodd o'r fro.

Er crefu am ddiod o ddwfr yn ei gur
At wella ei galon 'rol archoll o ddur—
Neu olchi ei glwyfau—d'oedd neb yno wna,
Nac un llaw a ddaliai yn fwyn ei ben cla' ;
Yr awel a'i heibio gan ddwyn gyda hi
O enau rhai eraill i'w glyw eu hoer gri.

Heb neb i'w gysuro â gair bach yn awr,
Ei waed wedi mwydo o'i amgylch y llawr—
Ei law ar ei fynwes yn bell o'i hoff wlad,
O olwg ei frodyr, ei hen fam a'i dad ;
A'i ruddiau yn wlybion gan wlith a chwys oer,
Bu farw yn nghanol llwyd pruddaidd y lloer-oleu."

*Llanerchymedd.*

MARION MON.

---

MARION MON.

Yr oedd y gwrthryfelwyr yn rhy gryfion i ni, o ganlyniad rhaid oedd rhoddi i fyny, a throi yn ol. Wedi hyny gwelwyd y *rebels* yn dyfod at ein meirw a'n clwyfedigion, ac yn chwilio eu llogellau, ac yn myned a phob peth a allent gael, nid yn unig o'u llogellau, ond hefyd oddiamgylch eu cyrff. Yn eu plith y gorweddai y Cad. Jackson, yr hwn a flaenorai y Pennsylvania *Reserves*, ac eraill o'n swyddogion gyd ag ef. Claddwyd llawer o honynt yn yr un bedd, lle y gorweddant hyd ganiad yr udgorn y dydd olaf, pan y rhydd yr holl feddau i fyny eu meirw. Terfynaf yn awr, gan anfon fy serch atat.

THOMAS R. GRIFFITHS.

At Dafydd Jeffreys, Minersville, Pa.

---

Thomas R. Griffiths, 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863, t.27

Rhagfyr 28, 1862.

MR. GOLYGYDD:—Gan fy mod wedi bod yn un o dderbynwyr y DRYCH am amser, ond wedi gorfod ei adael, fel pob peth arall, wrth ateb gofynion fy ngwlad fel milwr, dichon y bydd ychydig eiriau oddiwrthyf yn dderbyniol. Gwelais trwy y DRYCH rai milwyr Cymreig yn ysgrifenu ychydig hanes eu catrodau, eu sefyllfa, a'u gweithredoedd, a bod hyny yn dra chymeradwy gan y Cymry yn gyffredin. Gan fod amryw Gymry yn gwneyd i fyny y 56ain Ohio, ac na welais ddim yn gyhoeddus am dani, meddyliais y gallasai ychydig o'n hanes fod yn gymeradwy gan amryw o'ch darllenwyr. Gwnaed y gatrawd hon i fyny gan mwyaf yn y misoedd Medi a Hydref, 1861, ger Portsmouth, Swydd Scioto, Ohio, dan y Mil. Kinney, o'r ddinas uchod. Yr oedd yn gwneyd i fyny y gatrawd hon ar y cyntaf, y rhan fwyaf o ddau gwmni o Gymry, sef cwmnioedd C ac E.—Yr oedd Capteiniaid y ddau ...

... gwmni o Gymry, sef cwmnioedd C ac E.—
Yr oedd Capteiniaid y ddau gwmni hyn yn Gymry, ac un Is gapten. Yr oedd hefyd amryw Gymry yn wasgaredig mewn cwmnioedd eraill yn gyffredin, yn nghyd a'r *Adjutant* a'r Capelydd. Yr oll yn gwneyd i fyny 150, ond fod rhai o honynt o deulu Dic Sion Dafydd, yn gwadu iaith eu mamau. Bu y gatrawd hon yn gwersyllu yn agos i dref Portsmouth hyd Tachwedd, 1861, pan y galwyd hi allan i faes y rhyfel. Y lle cyntaf iddi fyned ato oedd Caerfa Donelson, yn amser y frwydr fawr yno rhwng y Cad. Grant a'r gwrthryfelwyr. Ond buom ni mor ddedwydd a chael ein harbed rhag myned yn mlaen i'r frwydr, gan i'r gwrthryfelwyr roddi eu harfau i lawr cyn bod ein hangen.

Buom yn aros yn y gaerfa am tua thair wythnos ar ol y frwydr; lle afiach, gwenwynllyd, tost ydoedd, ac yr oeddym oll yn crefu am gael ein symud i ryw le cyn i ni fyned yn rhy wan i fyned i un man. A thua dechreu mis Mawrth, cawsom ein symud bob yn ychydig i fyny i Crump's Landing, ar lan afon Tennessee, lle y cawsom ein trefnu i fod dan arweiniad y Cad. Lew. Wallace, o Indiana. Yr amser hwnw, yr oedd ...

Ffaith ddiddorol – Lew Wallace ysgrifennodd 'Ben Hur'!

William S. Jones (Co. C, 56 Cat. Gwirfoddlu Ohio), 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863, t.27

o Indiana. Yr amser hwnw, yr oedd y Cad. Grant a'i fyddin yn symud i fyny i Pittsburg Landing, 6 milltir yn uwch i fyny yr afon. Ein symudiad pwysig nesaf oedd i frwydr waedlyd Shiloh a Pittsburg Landing, am yr hon yn ddiau y mae pawb yn hysbys. Nid oes eisiau i mi son am yr olygfa ar faes y gwaed y dydd ar ol y frwydr. Gwelais rhai parthau o hono wedi ei orchuddio bron gan gyrff dynol a cheffylau, a'r coed wedi eu medi fel gwellt. Yr oedd amryw o'r gwrthryfelwyr wedi eu haner llosgi gan dan oedd yn y dail a'r coed ac wedi hyny yn ymaflyd yn eu pylor. Taflwyd y *shells* o'r gwnfadau i'w mysg. Ond arbedwyd ein catrawd ni yn y lle hwn hefyd. Buom yn gwersyllu ar faes y frwydr am oddeutu mis yn agos i Shiloh (capel bychan ysgwar o logs, o'r enw hwnw.) Ond buom allan yn *scowtio* amryw weithiau, a chawsom ysgarmes fechan un tro, yn agos i dref fechan o'r enw Purdy. Bob yn ychydig, nesasom ar Corinth, lle yr oedd gallu mawr o'r gwrthryfelwyr yn gwneyd sefyllfa mewn gwarchgloddiau, a lle bu Halleck a byddin yr Undeb, a Beauregard dros y Deau, yn brwydro a'u gilydd am ddiwrnodau. Ond y di-

brwydro a'u gilydd am ddiwrnodau. Ond y di-
weddaf a wnaeth yn dda ei enciliad gan adael ei le i'w well. Bu y 56ain Gat. Ohio, yn arbedol y waith hon hefyd, trwy i'r Cad. Lew. Wallace a'i fyddin gael eu gadael i fod wrth gefn. Ar ol y gwrthgiliad hwn, cawsom gychwyn yn union yn groes trwy Dalaeth Tennessee i Memphis, dinas ar lan y Mississippi, oddeutu 100 milltir y ffordd yr aethom ni. Tua'r amser hwn yr oedd y Llyngesydd Davies a'i lynges yn myned i gymeryd Memphis a llwyddodd i'w chymeryd pan oeddym ni ar y ffordd tu ag yno. Taith lled galed oedd hon, yn wir, i filwr dan faich trwm, o herwydd fod y tywydd mor dwymn yn mis Mehefin. Yr oedd y ffordd mor llychlyd a'r ffynonau dyfroedd mor anaml, fel y goddefasom lawer o angen dwfr. Wedi i ni gyraedd Memphis, gorchymynwyd ein milwyr yn y gatrawd hon i fyned allan tua 28 milltir o'r dref, i adgyweirio pontydd ar y gledrffordd, y rhai a losgasid gan y gwrthryfelwyr.—Wedi ein myned allan yno, digwyddodd er ein syndod ein bod yn gweithio ar ffarm hen Gymro o'r enw, Davis, yn enedigol o Sir Gaerfyrddin, yn Nghymru. Ymddiddanai yn yr hen iaith o'r

[Gwel parhad ar dudalen 30.]

[Parhad o dudalen 27.]

goreu, dywedodd nad oedd neb o'i berthynasau yn y rhyfel, nac wedi rhoddi un cynorthwy i fyddin y Deheuwyr; ond hawdd oedd deall fod ei egwyddor fel y rhai olaf oll yn *secesh*. Carai ni fel Cymry, ond fel milwyr Gogleddol, mynai ein bod wedi cael ein twyllo gan ein blaenoriaid i wneyd yr hyn oedd anghyflawn.

Yr amser hwnw hefyd y llwyddodd y gwrthryfelwyr i ddymchwel y gerbydres a'i losgi, a dal ein Milwriad ac ysgwad o ddynion yn garcharorion, y rhai oeddynt yn dychwelyd wedi bod ar neges yn y dref. Buont yn ein golwg ni rai gweithiau ar ein dychweliad, ond nid ymosodasant.

Oddeutu diwedd mis Gorphenaf, cawsom ein symud o Memphis i Helena, Ark., o bossibl tua 90 milltir i lawr ar hyd yr afon, lle yr oedd y Cad. Curtis a'i fyddin wedi dyfod i mewn ar hyd y tir yn groes i Dalaeth Arkansas a Missouri.—Ac yma yr ydym eto er's pum mis bellach, ond buom oddiyma amryw weithiau ar ymgyrchoedd.

William S. Jones (Co. C, 56 Cat. Gwirfoddlu Ohio), 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863, t.27, t.30

... oddiyma amryw weithiau ar ymgyrchoedd. Y ddiweddaf oedd y fwyaf pwysig fel y caf roddi braslinelliad o'r hanes. Cychwynasom oddiyma ar y 27ain o Tach., tu ag 8,000 o honom, dan arweiniad y Cad. Hovey, o Indiana.—Cerddasom oddeutu 60 milltir yn groes i Dalaeth Mississippi, gyda'r bwriad o dori y gledrffordd er mwyn atal ymgiliad y gwrthryfelwyr dan y Cad. Price, yr hwn sydd yn cael ei ymlid gan y Cad. Grant. Llwyddasom i dori y ffordd ond nid heb beth ymladd ychwaith. Y meirchfilwyr fuont fwyaf ar waith, diangodd y gelynion ac ar eu henciliad llosgasant rai *locomotives*, llawer o gerbydau ac ystorfeydd. Lladdwyd 2 a chlwyfwyd 18 o'n hochr ni, ni wyddys colled y gelynion, ond am yr 20 a gymerwyd yn garcharorion.

Yr oeddym yn lled eon ar y ffermydd ar ochr y ffyrdd, yn gyffredin, ie, ac o fewn milltiroedd i'r ffordd. Ein holl gig o'n cychwyniad hyd ein dychweliad yn ol oedd anifeiliaid yr hen ffermydd ac nid ychydig oedd i'w gael chwaith. Dygem hefyd bob peth arall a wnai les i ni. Rhaid ystyried mai gwrthryfelwyr a dinystrwyr Llywodraeth ydyw yr oll braidd o'r Deheuwyr, onide buasai y fath ymddygiad yn gywilydd i ni. Mae y milwyr newyddion, neu y gwyr can dolar, fel y geilw yr hen filwyr hwynt yn dweyd eu bod wedi dyfod allan i'r perwyl o atafaelu eiddo gwrthryfelwyr ac maent yn deall eu crefft yn ardderchog hefyd—yn cyflawni yr hyn alwn I yn lladrad cyhoedd, yn cymeryd eiddo personol yn yspail rhyfel; a'r swyddogion mor euog a neb.

Ond nid ydynt yn derbyn baner eu haeddiant oddiwrthym wrth ystyried eu hymddygiadau tu ag atom. Ychydig yn awr am ansawdd a sefyllfa y lle hwn. Tref fechan ddiolwg ydyw Helena, wleb iawn yn y gauaf, ac afiach dost yn nhymor poeth yr haf. Ni fu llai na 40 o'r gatrawd hon feirw yn ystod y misoedd diweddaf, ac yn eu mysg 6 o Gymry, oll yn ddynion ieuainc.

Tu ag 20,000 yw ein nifer yma yn bresenol, bu yma 40,000 hyd y dyddiau diweddaf ar ol i 15,000 o filwyr newyddion ddyfod atom o Iowa a Wisconsin. Ymadawodd 20,000 oddiyma ar 21ain cyf., am Vicksburg, ar y Mississippi. O ran sefyllfa y tir, mae yn lle cyfleus i'w ddal yn erbyn gallu mawr, o herwydd fod y tir ychydig allan o'r dref mor fryniog a thoredig fel nas gall yr un fyddin ddyfod i mewn gyd ag un math o drefn.

Heblaw hyny, mae yma gaerfa gadarn ac arni bump o warchynau mawrion, a thua'r un nifer o ynau bychain, *brass battery*. Adeiladwyd y gaerfa hon gan Negroaid ffoedig a ddeuent i mewn wedi dianc oddiwrth eu meistri. Mae yma filoedd o honynt yn bresenol, ond maent yn meirw yn hynod o gyflym.

Clywais lawer ...

William S. Jones (Co. C, 56 Cat. Gwirfoddlu Ohio), 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 31 Ionawr 1863, t.30

Clywais lawer yn haeru na all dyn gwyn ddal
i weithio yn y Deau, a bod yn angenrheidiol cael
gwasanaeth y Negroaid. Nid yw hyn ond ·s-
gusawd gwan dros gaethiwed, oblegid mae yr
hyn a welais a'm llygaid yn profi i mi y gall y
dyn gwyn ddal i weithio yn well yma, a myned
trwy bob math o galedi. Gwelwyd prawf o
hyny yr haf a aeth heibio. Effaith led ystyfnig
y mae rhyddhad y caethion yn ei gael ar y mil-
wyr yn gyffredin, ac achosa gryn siarad a pheth
anfoddlonrwydd. Dywedant nad ydynt wedi
dyfod allan yn *Abolition* i ymladd dros ryddhad
y caethion, ond dros eu gwlad. Ond mae amser
apwyntiedig y Llywydd i'w rhyddhau wrth y
drws, ac mae eu rhyddid yn wir haeddianol idd-
ynt.

Helena yn ei chysylltiad a'r gelynion. Y guer-
rilliaid ydyw yr unig elynion sydd yn y parthau
hyn, a'r gelynion gwaethaf a chreulonaf o bawb
ydynt. Maent yn peri llawer o aflonyddwch i ni
yma, ac yn cyflawni y gweithredoedd mwyaf ys-
geler i ddynoliaeth. Mae yn yr amgylchoedd
hyn chwe chwmni o honynt, y rhai a elwir y *Six
Spy Company*, y rhai a chwiliant yr holl wlad
gan wylio ein symudiadau. Mynych y disgynant
ar ein hychydig filwyr fyddant yn rhagwylio, gan
eu cymeryd ymaith a'u llofruddio. Disgynodd
rhai o honynt yn ddiweddar ar gwmni o'n meirch-
filwyr pan oeddynt yn bwyta eu boreufwyd wrth
ragwylio, ac a'u cymerasant oll ymaith yn garch-
arorion. Dro arall gwnaethant gyullwyn yn y
coed lle yr oedd y ffordd yn gul mewn toriad
dwfn, trwy godiad bryn. Tra yr oedd 25 o'n
meirchfilwyr yn dychwelyd wedi cael eu cyfnew-
id oddiar y *picket* nesaf allan, neidiasant arnynt
yn eu hanwybodaeth ac mewn lle mor gyfyng fel
na ddiangodd ond dau o'r pump ar hugain.—
Lladdwyd pump yn y fan, clwyfwyd 18 a'r rhan
fwyaf yn anobeithiol, a lladdwyd 23 o geffylau.
Nid oedd llai na 33 o fwledau wedi eu gyru trwy
un dyn, meddant.

A throion felly a wnant yn fynych. Gwell
hio yn ysglyfaeth i'r bwystfilod rheibus nac

yn nwylaw y Guerrilliaid, o herwydd nid ydynt
ond lladron cyhoeddus, yspeilwyr a llofruddion, a
hyny i'r graddau gwaethaf. Y peth cyntaf a
wnant wedi dal ein milwyr ydyw eu hyspeilio o'u
harian a'u dillad, gan rhoddi rhyw hen garpiau
iddynt yn eu lle. Pan awn allan i chwilio am
danynt, ni byddant i'w cael yn un man. Diau
wrth hyn mai rhai o'r gymydogaeth sydd yn
gwneyd i fyny y dosbarth anwaraidd hwn. Er
hyny ein swyddogion a ymddygant yn dyner a
thirion atynt, ac aml y gosodant warchlu i wylio
eu tai a'u meddianau gan adael i'n milwyr oddef
eisiau. Rhaid rhoddi rhyw atalfa ar hyn.

WM. S. JONES,
*Co. C., 56 Cat. Gwirfoddlu Ohio.*

William S. Jones (Co. C, 56 Cat. Gwirfoddlu Ohio), 'Llythyrau Oddiwrth Filwyr Cymreig',
*Y Drych*, 31 Ionawr 1863, t.30

John W. Rowlands, *Y Drych,* 7 Chwefror 1863

## Llythyrau oddiwrth Filwyr Cymreig.

Mr. Golygydd:—Hwyrach eich bod yn meddwl erbyn hyn fy mod wedi eich angofio, ond nid yw felly; mae y Drych bob wythnos yn fy adgofio am danoch; gyrais am dano o Harrison's Landing, a derbyniais y rhifyn cyntaf o hono y diwrnod cyn i ni ymadael, ac nid wyf wedi colli ond dau rifyn er y pryd hwnw. Pan y gadawsom Harrison's Landing, cafodd yr oll a feddem ei bacio i fyny yn yr agerlestr, oddigerth un gwrthban bob un; wedi cerdded yn galed cyraeddasom Newport News, a chawsom ddiwrnod o orphwyso. Yna tros-lwyddwyd ni gyda throsglwyddlestri i Acquia Creek; hwyliodd y 3ydd a'r 4ydd Gat., ar yr Elm City am 9 p. m., ar yr 20fed o Awst.

Tu ag 1 o'r gloch y boreu canlynol, ceisiodd agerlestr o ymddangosiad du ein suddo, ond gan i'n *pilot* weled eu bwriadau mewn pryd, ataliodd yr agerlong, a throes yr olwynion i weithio yn y gwrthwyneb; ond cariodd ymaith tua 10 troedfedd o'n pen blaen. Yr oedd amryw ddynion yn cysgu yno ar y pryd, a rhaid eu bod wedi colli. Cawsom oll orchymyn i fyned i'r pen ol yn uniongyrchol er mwyn ysgafnau y pen blaen; ac wedi bod am ddwy awr yn *patchio* a rhoddi swm o *canvass* ar y twll; cyraeddasom yn ddiogel i ben y daith y nos ganlynol.

O Acquia Creek cawsom ein tynu i Falmouth gan y ceffyl haiarn, a gwersyllasom yn hen le McDowell, lle yr oedd wedi bod yr holl haf yn gwneyd dim. Wedi gorphwys am ddeuddydd, ymadawodd ein corfflu, eiddo Porter, am Bull Run, Rhif. 2. Cawsom amser caled o honi, yr oedd pedrolfeni yn ein ffordd o hyd. "Lle mae ewyllys y mae ffordd," ac felly y profodd yma.—Yr oeddym wedi bod ar ein taith am 28 awr pan y cyraeddasom ar doriad y dydd, i Bull Run, ar y 20ain o Awst, heb ddim i'w fwyta.

Nyni a ddechreuodd y frwydr ac yr oeddym y rhai olaf i adael y maes, y dydd cywilyddus hwnw; pan y gallasem ddal ein tir a gorchfygu gwrthryfelwyr, ond ni chaem ganiatad i wneyd hyny. Cywilydd! cywilydd! i'r genedl sydd yn goddef i'r fath ffyliaid lywyddu y milwyr dewraf ar y ddaiar. Nid oedd yn orchfygiad nac anghymwysder, ond yn rhan o gynllun anfad a bradwrus. Teithiasom o'r llanerch anffodus hon trwy Fairfax C. H., i amddiffynfeydd Washington; ychydig o ddyddiau o orphwys yn ychwaneg ac ymaith drachefn i Maryland. Gwyddoch beth a wnaethom yno, ac felly y gwyr Lee er ei ofid. Collodd ein catrawd yn drwm yn Antietam. Ar y 16eg, yr oeddym yn gwarchod y bont trwy'r dydd, tri chwmni drosodd fel ysgarmeswyr, o 70 o ddynion. Ni ddychwelodd ond 25 o honynt, gadawyd 45 o honynt ar y maes, y rhan fwyaf o honynt yn feirw.

John W. Rowlands, *Y Drych,*
7 Chwefror 1863

Ar yr 17eg cawsom olwg lawn ar yr holl faes. Y rhuthr gorchestol a wnaed gan y Frigad Wyddelig a goronodd y dydd; tybiasom fod y gyflegrfa wedi ei cholli dair gwaith; gwnaeth y gwrthryfelwyr dri rhuthr ffyrnig, syrthiodd brigad Meagher yn ol bob tro i roddi siawns i'r gyflegrfa; daethant y tro olaf hyd at y gynau; buasai yn ofidus yn wir i edrych arnom y pryd hwnw; daliai pob un ei anadl. Tybiasom y gallaswn roddi fy mywyd i lawr yn rhwydd i gynorthwyo y dynion truain hyny; yr oedd pob peth mor ddistaw ar bedd nes i'r mwg glirio ymaith, (yr oedd pob peth yn ddiogel) a rhaid fod y llefnfloeddion a roddwyd y pryd hwnw wedi suddo yn ddwfn i bob calon gwrthryfelwr oedd yno ar y maes. Daeth ein tro ninau yn awr, cymerodd Burnside y bont isaf, ond nis gallasai fyned yn mhellach. Croesasom yr ochr uchaf, a theithiasom trwy gae o Indrawn i'r ochr aswy.—Yr oedd y rhai oeddynt wedi eu lladd a'r rhai oeddynt ar drengu, cyfaill a gelyn, yn gymysg, ac wedi eu pentyru ar eu gilydd, a'r holl glwyfedigion yn erfyn am gynorthwy. Yr oedd yn galed myned heibio iddynt, ond rhaid oedd ufuddau i'r gorchymyn. Gwelais un dyn truan yn sefyll yn syth wrth goeden a'i ddwy fraich wedi eu cylymu am dani. Gofynais iddo beth oedd y mater? Ni atebodd fi. Yr oedd wedi cael ei saethu dair gwaith, ac yr oedd ei enaid wedi ehedeg (gobeithio) i well gwlad lle nad oes ryfel.

Yr wyf weithiau yn cael poeni fy nghalon wrth feddwl y gall fy mod wedi anfon llawer dyn truan i wynebu ei wneuthurwr yn anmharod. Gofidiais lawer pryd wrth weled dynion yn wynebu angau gyda llwon yn eu genau. Ni ddywedaf ddim o barth yr amryfuseddu yn Fredericksburg y tro hwn. Gadawsom yno gyda 85 o ddynion, ond er y pryd hwnw yr ydym wedi cael milwyr newyddion nes ydym yn awr yn 150. * *

JOHN W. ROWLANDS,
*1st Sergeant, Co. H, 4th Inft.*

John H. Williams, *Y Drych,*
7 Chwefror 1863

## NADOLIG YN CENTREVILLE.

Camp ger Fairfax C. H. Va.,
Rhag. 29ain, 1862.

MR. GOLYGYDD :—Arferiad cyffredin iawn yw genym ysgrifenu hanes pa fodd y byddwn wedi treulio y rhan arbenig o'r flwyddyn a elwir y

"Nadolig ;" ac efallai y caniatewch i mi gael congl fach o'r DRYCH i ddweyd pa fodd ac yn mha le y treuliais i yr Wyl eleni. Boreu Mercher, Rhag. 24ain, cychwynasom yn un gatrawd o Fairfax C. H. am Centreville ; yr oeddym i wneyd y rhan hono o ddyledswydd milwyr a elwir y *Picket Duty.* Ar ol cerdded chwe milltir ar hyd ffordd oedd *Uncle Sam* wedi cymeryd trafferth i'w hadgyweirio (rhai igam-ogam yw ffyrdd Jeff., wyddoch), cyrhaeddasom y lle penodedig. Rhanwyd ni fel cwmniau ; aeth cwmni A a B ar y *Picket* am y pedair awr ar hugain cyntaf, a gadawyd i'r gweddill o honom fyned i chwilio am le i aros hyd nes y deuai yr amser oddiamgylch i ni gymeryd ein rhan yn y gwaith

Syrthiodd i'n rhan ni fel cwmni i gael lle mewn hen *Episcopal church* oedd yno, ac yn wir cefais lawer o hyfrydwch wrth daflu fy meddwl yn ol oddiyno i amryw o gapelydd yn Nghymru y cefais y fraint o dreulio llawer Nadolig difyr wrth wrando ar "Genhadon Crist" yn traethu cenadwri fawr y groes yn eglurhad yr yspryd ac mewn nerth. Hefyd yr oeddwn yn galw i gof y pleser mawr a gefais y blynyddoedd diweddaf mewn "Cyfarfodydd Llenyddol" yn Fairhaven. Wel, Syr, nid oedd yno gyfarfod pregethu na chyfarfod llenyddol, ond yr oedd genym ddau o fechgyn mwy doniol na chyffredin yn perthyn i'n cwmni ; saith o'r gloch nos Fercher, aethant i fynu i'r Oriel, a chawsant ddwy o areithiau hynod o dda a tharawiadol gan 'dynt ; yr oedd eu sylwadau yn dal cysylltiad mwyaf neillduol a sefyllfa a chyflwr torcalonus ein gwlad. Ar ol treulio ychydig o oriau mor ddifyr ac y medrem o dan y fath amgylchiadau, rhoddasom ein hunain i fyny o dan lywodraeth Mr. *Cwsg* hyd y boreu. Efallai y dylwn roddi disgrifiad bychan pa fath le yw Centreville. Mae yn sefyll ar dipyn o fryn a gwlad eang a gwastad i'w gweled am filltiroedd o gwmpas ; nid yw ond pentref bychan distadl iawn yn bresenol, a'r rhan fwyaf o'r tai wedi eu chwalu fel mae pob lle y mae rhyfel yn agos ato.

Mae yn syndod genyf fod ...

John H. Williams, *Y Drych,*
7 Chwefror 1863

... Mae pob lle y mae rhyfel yn agos ato.

Mae yn syndod genyf fod y *rebels* wedi gadael yno heb i ymladdfa fawr gymeryd lle, oblegid yr oeddynt wedi codi amddiffynfeydd cryfion iawn o gwmpas, fel yr oedd yn anhawdd iawn i'm tyb i, gymeryd y lle pe buasent yn sefyll fel dynion. Ion. y 25ain, Nadolig, daeth ein hamser ni i fyned allan ar y *Picket*, yr oeddym oddeutu tair milltir i'r Dehau o'r pentref, ac yn y lle yr oedd cant a haner o filoedd o'r *rebels* yn aros y gauaf diweddaf. Clywais lawer o son pan oeddwn gartref eu bod ar ddarfod am danynt, ac heb ddim at eu cysur a'u dedwyddwch. Y gwir yw, yr oedd ganddynt le da y gauaf diweddaf; yr oedd eu *Barracks* yn rhai da a chynes, a chanddynt bob peth at eu hangen ynddynt, megis cadeiriau, ystolion, *boxes* wedi eu cael oddicartref yn llawn o bob trugareddau; mewn gair, yr oedd yno bob peth at eu cysur a'u dedwyddwch.

Dydd Sul, yr 28ain, daethom yn ol i'r *Camp* ar ol bod allan am bum diwrnod—cawsom dywydd brâf ar hyd yr holl amser.

Nid oes dim neillduol wedi digwydd er pan ydym yn Virginia yn ein plith ni fel catrawd, felly ni flinaf eich amynedd yn ychwaneg y tro yma. Mae yma bum' catrawd o honom, sef y 2nd *Vermont Brigade*, ac yr ydym yn 'myned ar y *Picket Duty* pan ddaw ein tro oddiamgylch.

Prysured y dyddiau dedwydd i ben y byddo y rhyfel yma drosodd eto, a chaethiwed wedi ei ladd am byth. Gyda dymuno llwyddiant y Drych a'i berchenog y terfyna

John H. Williams,
Company F, 14 Vermont Reg't Volunteers.

## PENILLION AR Y RHYFEL.

Du ryfel andwyol i'n daiar a ddaeth,
A mawr yw y trallod a'r difrod a wnaeth;
Dymchwelodd deyrnasoedd a chwalodd i'w sail,
Ddinasoedd godidog na's gwelir eu hail.

Fe welir effeithiau o'i ddrygau tra mawr,
Yn rhwygo talaethau Amerig yn awr;
Hyd feusydd Virginia mae bradwyr y De,
Fel gweision Gehena yn ddifrod i'r lle.

Y gerddi rhosynog a fathrir dan draed,
A'r dolydd meillionog fe'u lliwir gan waed,
Y pylor difaol a ddeifia y gwellt,
A'i nerth anorchfygol gwna'r goedwig yn ddellt.

Ond ow! ar fywydau dynolryw gwnaed brad,
Rai safent yn wrol dros ryddid eu gwlad,
Gwyr dewrion y Gogledd drywanwyd a'r cledd,
Fe'u gyrwyd i orwedd mewn anrhefn i'r bedd.

Holland Patent. ABERIDDON.

*Y Drych,* 28 Chwefror 1863